Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: 47706**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023-2028

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi: 26 Mehefin 2023

Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 2 Hydref 2023

## Trosolwg

Hoffem glywed eich barn ar bolisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r amgylchedd sain yn yr awyr. Rydym wedi crynhoi'r dystiolaeth, ein polisïau presennol a'n blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf yng Nghynllun Sŵn a Seinwedd drafft 2023-2028. Pan gaiff ei fabwysiadu, y Cynllun hwn fydd ein strategaeth genedlaethol ar seinweddau nes y caiff ei adolygu a'i ddiweddaru nesaf. Disgwylir i hynny ddigwydd yn 2028.

## Sut i ymateb

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn nifer o gwestiynau.

Gellir cyflwyno ymatebion gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

Ar y we: https://llyw.cymru/ymgyngoriadau

Drwy e-bost: environmentalnoise@gov.wales

Drwy'r post: Ymgynghoriad ar y Cynllun Sŵn a Seinwedd
Is-adran Diogelu'r Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Gweler uchod.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg: https://gov.wales/consultations

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

**Eich hawliau**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost:
dataprotectionofficer@llwy.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw: Sarah Capstick

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

E-bost / rhif ffôn: safercommunities@wlga.gov.uk / sarah.capstick@wlga.gov.uk

Eich cyfeiriad: Wales Safer Communities Network, Welsh Local Government Association, One Canal Parade, Dumballs Road, Cardiff CF10 5BF

## Cyflwyniad

Mae **sŵn**, sef sain ddiangen neu niweidiol, yn effeithio ar iechyd a llesiant mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys tarfu ar gwsg, niwsans, effeithio ar ddysgu, lleihau cynhyrchiant, colli clyw a chynyddu'r risg o glefyd cardiofasgwlaidd. Gall ddeillio o amrywiaeth eang o weithgareddau dynol, gan gynnwys ffynonellau domestig, masnachol a thrafnidiaeth.

Diffinnir **seinwedd** fel yr amgylchedd acwstig (neu sain) fel y'i canfyddir neu y'i profir a/neu y'i deellir gan unigolion neu bobl, yn ei gyd-destun. Mae'n cynnwys y seiniau y mae pobl am eu clywed yn ogystal â'r synau nad ydynt am eu clywed. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn rhestru **seinweddau priodol**, sy'n golygu'r amgylchedd sain priodol ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir, ymhlith ein Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy.

Yn 2018, gwnaethom gyhoeddi Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023, a oedd yn ail-lunio polisi sŵn yng Nghymru o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015"). O ganlyniad i hyn, cafodd Cymru ei chydnabod fel y wlad gyntaf i gynnwys seinweddau mewn polisi cenedlaethol, a chyfeiriwyd at hyn yn adroddiad Frontiers 2022 Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig.

Yn gynharach eleni, gwnaethom gyflwyno Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), a fydd yn ei gwneud yn ofynnol inni lunio strategaeth genedlaethol ar seinweddau. Yn 2018, gwnaethom hyn o'n gwirfodd ar ffurf y Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd, ond credwn y bydd rhoi sail gyfreithiol fwy cadarn i'r Cynllun newydd, sef Cynllun Sŵn a Seinwedd 2023-2028, yn codi ei broffil ac yn ei wneud yn fwy effeithiol o ran arwain prosesau gwneud penderfyniadau cytbwys.

Mae Cynllun Sŵn a Seinwedd 2023-2028 yn cadw ac yn mireinio negeseuon craidd y Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd, sy'n cynnwys:

- ein huchelgais, sef seinweddau priodol;
- ein hymrwymiad i wreiddio'r pum ffordd o weithio yn Neddf 2015;
- ein hymrwymiad i gydgysylltu camau gweithredu ynghylch sŵn ac ansawdd aer ble bynnag y bydd hynny'n gwneud synnwyr.

Mae'r Cynllun drafft yn ymdrin â phynciau newydd sydd wedi dod i'r amlwg dros y pum mlynedd diwethaf, megis materion yn ymwneud â gweithio o bell, amrywiaeth glywedol, pympiau gwres ffynhonnell aer, newidiadau i derfynau cyflymder, a thân gwyllt. Mae hefyd yn nodi'r hyn rydym wedi'i gyflawni dros y pum mlynedd diwethaf, megis gwaith lliniaru sŵn a gwblhawyd ar y rhwydwaith cefnffyrdd.

Mae datblygiadau ym maes polisi a chanllawiau cynllunio, yn enwedig gwaith tuag at gyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol newydd (TAN 11) a chanllawiau cysylltiedig ar ddylunio seinweddau a'u rhoi ar waith, y gwnaethom ymgynghori arnynt yn ddiweddar, hefyd wedi'u cynnwys yn y Cynllun, yn ogystal â'n mapiau sŵn diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22.

Bydd pobl yn profi manteision newid o fesurau rheoli sŵn traddodiadol i ddull mwy

cynhwysol sy'n seiliedig ar seinweddau pan fyddant yn gallu gweld cyrff cyhoeddus yn ystyried safbwyntiau cymunedau lleol ar eu hamgylcheddau sain, o ran yr hyn sy'n werthfawr iddynt a'r hyn y maent yn credu y mae angen ei wella.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1: Seinweddau priodol**

Ein nod yw creu'r amgylchedd sain priodol yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Rydym yn cydnabod y bydd gan wahanol bobl wahanol safbwyntiau ar yr hyn sy'n 'gywir' mewn cyd-destun penodol. I'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, bydd hyn yn aml yn dibynnu ar daro'r cydbwysedd cywir rhwng safbwyntiau croes, gan gynnal amrywiaeth o amgylcheddau sain yn ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd, fel y bydd yna rywle sy'n addas i bawb.

a) **Yn eich barn chi, beth fyddai nodweddion pentref, tref neu ddinas sydd wedi cyflawni "seinweddau priodol"?**

O safbwynt Diogelwch Cymunedol byddai'r seinwedd yn caniatáu digon o sŵn fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu mwynhau'r amgylchedd. Gall hyn arwain at synau cerbydau i gynorthwyo cerddwyr, beicwyr a marchogion i gael sŵn hefyd, yn ogystal â rhybuddion gweledol er mwyn atal damweiniau posibl. Gall hefyd gynnwys llai o adrodd am niwsans sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol neu sŵn.

Mae'r seinwedd o fewn unrhyw ardal yn annhebygol o fod yn gyson, er enghraifft, gall wahanol ardaloedd fod yn agosach at barciau a mannau gwyrdd ac eraill yn agosach at y prif gefnffyrdd. Gall fod amseroedd lle bydd y seinwedd yn newid i fwy ar draws y boblogaeth, er enghraifft o amgylch y 5 Tachwedd neu ar wahanol adegau yn sgil digwyddiadau cymunedol neu breifat. O ganlyniad, nid ydym yn teimlo y gallwn ddarparu ymateb i beth sy'n seinwedd briodol mewn cyd-destun sy'n newid yn gyson. Gwyddom y newidiadau a ddaeth yn sgil Covid-19, ac ni wyddwn pa newidiadau a ddaw yn sgil datblygiadau mewn technoleg neu newidiadau mewn iechyd, iechyd meddwl a goddefgarwch ar gyfer ystod o weithgareddau.

b) **Beth yw'r prif rwystrau rhag cyflawni seinweddau priodol mewn gwirionedd?**

Gall y prif rwystrau fod yn gysylltiedig â chostau ariannol y datrysiadau posibl neu ddatrysiad yn arwain at gostau uwch sy'n ei osod tu hwnt i'r cwmpas ariannol, yn arbennig gyda phroblemau costau byw y mae unigolion, busnesau a chymunedau yn eu hwynebu ar draws Cymru.

Gall gynllunio neu ddealltwriaeth wael olygu bod angen rhoi mesurau lliniaru mewn lle yn ddiweddarach, sy'n aml yn fwy costus.

Pobl, er y gall deddfwriaeth a mesurau gael eu rhoi mewn lle, bydd elfen o ddewis personol bob amser o ran faint o sŵn gaiff ei wneud, a bydd y lefelau derbyniol hefyd yn amrywio. Gall synau fferm dros dro wedi'i achosi gan gynaeafu neu gynnal a chadw tir arwain at gwynion ond yn y ddinas byddai'r sŵn yn llai amlwg.

**c) Sut y dylem geisio goresgyn y rhwystrau hynny?**

Ymwybyddiaeth pobl o'r hyn sy'n dderbyniol a'r hyn maent yn gyfrifol amdano fel unigolion, busnesau a chymunedau. Dylai hyn gynnwys sicrhau fod pobl yn ymwybodol o'u hawliau i hysbysu o dor rheolau a gorfodi cyllid ar gyfer cynllunio a gorfodi amgylcheddol.

**Cwestiwn 2: Dilyn y pum ffordd o weithio**

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 2015 ddilyn y pum ffordd o weithio sydd yn y Ddeddf honno wrth ymgymryd â gweithgareddau a all effeithio ar seinweddau – ac mae'n annog pawb arall i wneud hynny hefyd. Y pum ffordd hyn o weithio yw:

- ystyried y tymor hir fel na fyddwn yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- dilyn dull gweithredu integredig;
- cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir;
- gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

**a) Yn eich barn chi, sut beth fyddai hyn yn ymarferol?**

Mae nifer o enghreifftiau o sut all hyn weithio yn ymarferol ond hefyd mae rhwystrau sydd angen delio â nhw. Yr un mwyaf amlwg yw'r gost ac effaith cyfyngiadau'r gyllideb a'r costau cynyddol a achoswyd gan faterion costau byw sy'n digwydd ar hyn o bryd.  Yn sgil y cyfyngiadau ariannol hyn, bydd cydweithio'n heriol pan mae craffu ar lefel corff cyhoeddus neu sefydliadol. Y dirwedd wleidyddol gyda chylchredau etholiadol lle mae gwariant gweinyddol yn y dyfodol ddim bob amser ym mhŵer y gweinyddwyr presennol, er enghraifft, Llywodraeth Cymru, Cynghorwyr Awdurdod Lleol, Cynghorau Tref a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, yn ogystal â Llywodraeth y DU, a all arwain at ddulliau tymor byr.

Dylai cydweithio a gwaith partneriaeth gynnwys cyrff cyhoeddus a gedwir yn ôl, megis Plismona, yn ogystal â'r rhai datganoledig, oherwydd gall dor rheolau arwain at erlyniad ac felly ymgysylltiad gyda'r system cyfiawnder troseddol.

**b) A allwch chi roi enghreifftiau o ffyrdd y gallai corff cyhoeddus yng Nghymru ddangos pob un o'r pum ffordd o weithio wrth wneud penderfyniad sy'n debygol o effeithio ar amgylchedd sain pobl?**

Mae diogelwch cymunedol yn defnyddio'r pum ffordd o weithio o ran ei ddulliau datrys problemau, gyda chanolbwynt ar atal, sydd angen canolbwynt hirdymor gan gynnwys unigolion ar draws ystod amrywiol o'r boblogaeth yn cydweithio. Un enghraifft o hyn yw'r gwaith ar y cyd sy'n digwydd o ran tân gwyllt ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth, y defnydd o offer a phwerau

gan yr awdurdod lleol a/neu’r heddlu ac ymgysylltiad gyda grwpiau cymunedol a’r sector manwerthu.

### Cwestiwn 3: Amrywiaeth glywedol a'r sain a gynhyrchir gan weithgareddau dynol

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod pawb yn profi seiniau yn wahanol, a bod sŵn yn cael mwy o effaith ar rai pobl nag ar bobl eraill, er enghraifft pobl ag awtistiaeth neu'r rhai sy'n gweithio sifftiau nos. Ond rydym hefyd yn cydnabod yr angen i drin pobl sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n cynhyrchu seiniau, neu bobl sy'n mwynhau clywed y seiniau hynny o bosibl, mewn ffordd deg a chyson. Nid ydym am i Gymru fod yn ddistaw.

Rydym wedi awgrymu mai rhan o'r ateb i gydbwyso amrywiol anghenion a disgwyliadau pobl yw annog amrywiaeth o amgylcheddau sain yn ein cymunedau, a sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am achosi newid yn gyfrifol am reoli'r newid hwnnw. (Cyfeirir at hyn weithiau fel “egwyddor cyfrwng newid”.) Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i'r rhain.

### Sut ydych chi'n credu y dylai cymdeithas fynd i'r afael â'r cyfyng-gyngor sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod sain a gynhyrchir wrth i bobl fyw eu bywydau'n cael ei brofi gan bobl eraill fel sŵn diangen?

Niwsans sŵn yw un ffurf o ymddygiad gwrthgymdeithasol a all fod yn rhan o anghytuno rhwng cymdogion, aflonyddu neu drosedd casineb, ac felly rhaid cymryd hyn o ddifrif a delio â’r materion mewn modd cyson. Gall y defnydd o Ap Sain neu ddatrysiadau electroneg eraill, alluogi adroddiadau mwy cywir, gan leihau adroddiadau camarweiniol a all ddigwydd am amryw o resymau, ond hefyd i sicrhau fod pobl yn deall yr hyn nad yw’n dderbyniol. Dylai partïon untro gael eu rheoli yn wahanol i bartïon sy’n digwydd bob wythnos neu am nosweithiau ar y tro.

Gall gydlyniant cymunedol gynorthwyo, gan fod perthnasau gwell yn gallu helpu â sgyrsiau i hysbysu o ddigwyddiadau gyda sŵn - megis tân gwyllt, parti, gwaith adeiladu - neu alluogi unrhyw broblemau posibl i gael eu trafod, eu lliniaru neu eu datrys hen chwalu perthnasau.

### Cwestiwn 4: Sŵn ac ansawdd aer

Pibellau gwacáu cerbydau ffyrdd a'r rhyngweithio rhwng eu teiars a'r ffyrdd; awyrennau sy'n hedfan; trenau diesel; ffaniau echdynnu; adeiladu; cloddio; dymchwel; trin gwastraff; ffynonellau hylosgi diwydiannol; generaduron diesel; tân gwyllt. Mae pob un yn cynhyrchu llygredd a gludir drwy'r awyr a llygredd sŵn ac, yn fras, mae'r llygredd aer a sŵn y maent yn ei gynhyrchu yn effeithio ar yr un bobl gan mwyaf, sef y rhai sy'n byw agosaf at y ffynonellau. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod camau gweithredu cenedlaethol a lleol i wella ansawdd aer hefyd yn ceisio gwneud y gorau o'r manteision posibl i seinweddau.

a) **Yn eich barn chi, pa rai o'r camau y bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf i wella ansawdd aer yng Nghymru sy'n cyflwyno'r cyfleoedd mwyaf i sicrhau manteision ychwanegol o ran lleihau sŵn a gwella seinweddau?**

Nid oes gennym unrhyw safbwyntiau, oherwydd gall rai wella yn y tymor byr, megis tân gwyllt, ond gall eraill fod yn newid mwy cyson a hirdymor. Felly, nid ydym yn credu ei bod yn bosibl cymharu. O safbwynt diogelwch cymunedol, mae tân gwyllt yn niwsans, risg i iechyd ac yn risg tân, ond fel y cydnabyddir yn y ddogfen, mae deddfwriaeth ar dân gwyllt yn fater a gadwyd yn ôl.

b) **Yn eich barn chi, beth arall y dylem fod yn ei wneud (os o gwbl) i gydgysylltu polisi sŵn ac ansawdd aer yng Nghymru?**

Nid oes gennym unrhyw awgrymiadau mewn ymateb i’r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 5: Cynllun Sŵn a Seinwedd drafft 2023-2028**

Cyhoeddir Cynllun Sŵn a Seinwedd drafft 2023-2028 ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori hon. Mae'n cynnwys polisïau Llywodraeth Cymru a gwybodaeth am yr amgylchedd sain yr hoffem i awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ei hystyried wrth gyflawni swyddogaethau a all effeithio ar seinweddau yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf.

Disgyblaeth sy'n datblygu yw dulliau seinwedd, ond mae'n un sy'n gyson iawn ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy hyrwyddo dulliau seinwedd, rydym ar flaen y gad o ran symud i ffwrdd o ddull rheoli sŵn cwbl seiliedig ar ddata, tuag at un sy'n cydnabod amrywiaeth ein poblogaeth a phwysigrwydd ystyried cyd-destun a chynnwys cymunedau mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Rydym yn derbyn nad yw awdurdodau lleol na chwmnïau ymgynghori yn y sector preifat yng Nghymru, ar hyn o bryd, yn meddu ar y lefel o arbenigedd mewn technegau seinwedd yr hoffem ei gweld yn y tymor canolig i'r tymor hir. Fodd bynnag, os bydd sgiliau a phrofiad mewn perthynas â seinweddau yn cynyddu dros y pum mlynedd nesaf, gallai strategaeth seinweddau genedlaethol ddiwygiedig yn 2028 fod yn fwy uchelgeisiol o ran yr hyn y bydd yn disgwyl i ymarferwyr ei wneud o gymharu â'r un rydym yn ymgynghori arni eleni.

**Ydych chi'n credu ein bod yn taro'r cydbwysedd cywir am y tro rhwng osgoi creu beichiau newydd i awdurdodau cyhoeddus a busnesau yng Nghymru, a sbarduno'r newid o arferion rheoli sŵn traddodiadol i ddull sy'n canolbwyntio'n fwy ar seinweddau ac sy'n sicrhau bod pobl a chyd-destun wrth wraidd y penderfyniadau a wneir?**

Rydym yn cytuno mewn egwyddor y gall y dull gael ei gydbwyso ar gyfer yr hinsawdd economaidd bresennol, fodd bynnag gall dechnolegau arwain at ddulliau

amgen a all fod yn berthnasol cyn y cynllun nesaf, ac felly dylai fod cyfle i fonitro a defnyddio technoleg a fydd yn gwella’r seinwedd ar draws Cymru.

Mae Cynllun Gweithredu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Llywodraeth y DU a mesurau a deddfwriaethau eraill hefyd yn debygol o gael effaith a gallent fynd ymhellach na’r cynllun arfaethedig.

**Cwestiwn 6: Cynllun Sŵn a Seinwedd drafft 2023-2028 (parhad)**

Mae Cynllun Sŵn a Seinwedd drafft 2023-2028 yn cynnwys polisïau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer y mathau o sain a ystyriwyd yn flaenorol yng Nghynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023, megis seiniau trafnidiaeth, diwydiant a byd natur, ynghyd ag adrannau newydd sy'n ymdrin â mathau eraill o sain sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pum mlynedd diwethaf, megis tân gwyllt, pympiau gwres ffynhonnell aer a'r seiniau a brofir gan bobl wrth weithio gartref.

**a) A oes unrhyw bwyntiau pwysig sy'n ymwneud ag amgylchedd sain yn yr awyr Cymru nad ydym wedi cyfeirio atynt?**

Dim yr ydym ni’n ymwybodol ohonynt ar hyn o bryd.

**b) Ar gyfer y pynciau rydym wedi ymdrin â nhw, ydych chi'n anghytuno ag unrhyw rai o'r eitemau yr ydym wedi'u hamlinellu yn y Cynllun drafft?**

Gan fod Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn cynrychioli gweithwyr diogelwch cymunedol proffesiynol, rydym yn falch o nodi fod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cael ei gynnwys. Nid oedd unrhyw eitemau wedi’u hamlinellu yr oeddem yn anghytuno gyda nhw.

**Cwestiwn 7: Cyngor arbenigol ar seinweddau**

Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu panel cynghori arbenigol ar seinweddau, er mwyn llywio ei pholisïau yn y maes hwn.

Dychmygwch ein bod wedi sefydlu panel cynghori arbenigol ar seinweddau i’n helpu i roi ein strategaeth bresennol ar waith a datblygu polisïau i’w cynnwys yn ein strategaeth nesaf yn 2028, a chymerwch fod gan y panel y gallu i’n cynghori ar un cwestiwn mawr sy’n ymwneud â rheoli sŵn a seinwedd bob blwyddyn galendr.

**a) Beth fyddai’r pum cwestiwn mawr y byddech am weld y panel yn eu hystyried yn y pum blwyddyn galendr rhwng 2024 a 2028?**

1. Sut fydd y newidiadau hyn yn elwa unigolion, busnesau a/neu gymunedau?
2. A fyddent yn gwneud i unigolion a chymunedau deimlo’n fwy diogel?
3. A oes unrhyw ganlyniadau annisgwyl sydd heb eu hystyried?

**b) A oes unrhyw eitemau y bydd angen eu blaenoriaethu yn eich barn chi ac, os felly, pam?**

Dim o ran datblygu panel ymgynghorol arbenigol.

**Cwestiwn 8: Y Gymraeg**

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai polisïau Llywodraeth Cymru ar sŵn a seinweddau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru’r effeithiau negyddol?**

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y byddai newid y cynllun i alluogi cynyddu’r Gymraeg, yn ei achosi.

**Cwestiwn 9: Y Gymraeg (parhad)**

**Esboniwch sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid polisïau Llywodraeth Cymru ar sŵn a seinweddau er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y byddai newid y cynllun i alluogi cynyddu’r Gymraeg, yn ei achosi.

**Cwestiwn 10: Unrhyw sylwadau eraill**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Mae ymatebion i ymgyngoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: